# Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg
# Trosolwg o Uned 14

Canlyniadau ar gyfer Uned 14

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

| Canlyniadau Gwers 1 | Canlyniadau Gwers 2 | Canlyniadau Gwers 3 | Canlyniadau Gwers 4 | Canlyniadau Gwers 5 | Canlyniadau Gwers 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| - Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth | - Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill<br>- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd<br>- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith | - Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau anghymesur<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth | - Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig | - Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill<br>- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd<br>- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith<br>- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig | - Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth<br>- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth<br>- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill<br>- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd<br>- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith<br>- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig |

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 14 Gwers 1 |
|---|---|---|

Canlyniadau ar gyfer Uned 14

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Canlyniadau Gwers 1**

**Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy chwarae Cwpanau a Soseri ac adolygu Dau Filwr yn Cropian, Rhôl â'r Traed yn Twtsh ac amrywiadau'r dysgwyr o weithrediadau i bâr cysylltiedig. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cysylltu'r gweithrediadau hyn ag ystod o weithrediadau eraill fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd.

**Archwilio**

Cyflwynwch y cysyniad o'r teulu o sgiliau Rholio Ymlaen. Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer pob gweithgaredd yn y teulu. Dangoswch y sgìl i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Dylai'r dysgwyr weithio'n annibynnol â'r athro'n monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu herio'n briodol. Efallai mai dyma'r tro cyntaf i'r dysgwyr weithio yn y modd hwn, ac mae'n bwysig eu bod yn gweithio'n ddiogel ac yn gyfrifol, a'u bod yn gwneud cynnydd. Mae'n anochel y bydd llawer o fynd a dod tra bod y dysgwyr yn dod i arfer â'r dull newydd hwn o weithio. Er bod y gweithgareddau hyn wedi'u cynllunio i wella sgiliau'r dysgwyr, yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn gallu cynnwys y sgiliau newydd hyn mewn dilyniant, felly mae'n rhaid i'r dysgwyr gael digon o amser, a dylid eu hannog i gysylltu'r sgiliau newydd hyn â'r gweithgareddau addysgu'r corff eraill y maent wedi'u dysgu'n flaenorol.

Adolygwch y gweithrediadau cymesur a drafodwyd yn Uned 12. Trafodwch sut gall y gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen fod yn gymesur. Rhowch y cyfarpar i gadw.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant unigol ar y llawr gan gopïo un o'r fframweithiau a gyflwynwyd gan yr athro, gan gynnwys gweithgaredd o'r teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Rhaid i'r dysgwyr ychwanegu cyffyrddiadau personol i'r dilyniant hwn trwy amrywio cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr a maint neu hyd y gweithrediadau. Rhaid i'r dysgwyr gysylltu eu gweithrediadau â'i gilydd yn llyfn a chynnwys o leiaf un weithred gymesur.

**Ymyrryd**

Dewiswch ddysgwyr i rannu eu profiadau â'r dosbarth. Pa weithgaredd roeddent wedi dewis dechrau ag ef, a pham? Ai hwn oedd y cerdyn gorau ar eu cyfer? Sut roeddent yn gwybod? Os nad hwn oedd y cerdyn gorau, beth wnaethon nhw? Anogwch y dysgwyr i gyfiawnhau eu dewisiadau a sicrhewch eu bod yn defnyddio meini prawf priodol yn sail i'w dewis. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gweithrediadau cymesur, a gofynnwch iddynt ble mae'r llinell adlewyrchu a ble gall y llinell adlewyrchu fod? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Trafodwch sut maent wedi cyflawni hyn, a beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn perfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth.

**Perfformio**

Gofynnwch i bob un o'r dysgwyr berfformio ar yr un pryd.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso gan y dosbarth cyfan a gaiff ei harwain gan yr athro. Pa benderfyniadau oedd yn rhaid i chi eu gwneud heddiw? Pa mor effeithiol oeddech chi wrth wneud penderfyniadau heddiw? Sut gallwch chi wella'r modd yr ydych yn gwneud penderfyniadau? Pa amrywiadau personol y gwnaethoch chi eu hychwanegu i'r dilyniant roeddech chi'n ei gopïo? Pa weithrediadau cymesur y gwnaethoch chi eu cynnwys? Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r system goleuadau traffig sy'n rhan o Asesu ar gyfer dysgu er mwyn gosod targed ar gyfer y wers nesaf yn ymwneud â'r teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen: Coch, mynd yn ôl i wneud y gweithgaredd blaenorol; Melyn, parhau i weithio ar yr un gweithgaredd; Gwyrdd, symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf. Cyfiawnhewch eich penderfyniad. Rhowch sylw manwl i'r gofynion ar gyfer symud ymlaen. A allwch chi berfformio 'X' gan arddangos siâp clir, rheolaeth dda a thyndra da yn y corff? Ac a allwch chi gynnwys 'X' yn eich dilyniant mewn modd effeithiol, llyfn ac effeithlon? Os felly, ewch ymlaen i roi cynnig ar y gweithgaredd nesaf yn y teulu. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 14 Gwers 2 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Canlyniadau Gwers 2**

**Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy chwarae'r gemau Cwpanau a Soseri a Phlymio o'r Awyr - amrywiad ar y gêm Cwpanau a Soseri: unwaith i chi gael eich tagio mewn siâp Soser rhaid i chi rolio drosodd i siâp Plymio o'r Awyr, a phan fyddwch yn cael eich tagio yn y siâp Plymio o'r Awyr rhaid i chi rolio drosodd i siâp Soser, a phan fyddwch yn cael eich tagio eto rhaid i chi fynd yn ôl i mewn i siâp Cwpan, ac yn y blaen.

**Archwilio**

Cyflwynwch y weithred Cerdded fel Lindys. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Cerdded fel Lindys ac allan ohoni. Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar eu targed o'r wythnos diwethaf a pharhau i archwilio'r gweithgaredd priodol, gan symud ymlaen pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Dylai'r gwaith gael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn barod, ac os nad ydynt yn barod dylai'r athro eu holi ynghylch y meini prawf ar gyfer llwyddo. Rhowch y cyfarpar i gadw.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant unigol ar y llawr trwy gopïo un o'r fframweithiau a gyflwynwyd gan yr athro, gan gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys a gweithgaredd o'r teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Rhaid i'r dysgwyr ychwanegu cyffyrddiadau personol i'r dilyniant hwn trwy amrywio cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr a maint neu hyd y gweithrediadau. Rhaid i'r dysgwyr gysylltu eu gweithrediadau fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd ac arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth yn ogystal â chynnwys o leiaf dwy weithred gymesur.

**Ymyrryd**

Dewiswch ddysgwyr i rannu eu profiadau â'r dosbarth. Pa weithgaredd roeddent wedi dewis dechrau ag ef, a pham? Ai hwn oedd y cerdyn gorau ar eu cyfer? Sut roeddent yn gwybod? Os nad hwn oedd y cerdyn gorau, beth wnaethon nhw? Anogwch y dysgwyr i gyfiawnhau eu dewisiadau a sicrhewch eu bod yn defnyddio meini prawf priodol yn sail i'w dewis. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gweithrediadau cymesur, a gofynnwch iddynt ble mae'r llinell adlewyrchu a ble gall y llinell adlewyrchu fod? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Trafodwch sut maent wedi cyflawni hyn, a beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn perfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Gofynnwch i'r dysgwyr lunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill. Tynnwch sylw at ddefnydd cywir o eiriau allweddol; defnyddiwch wal eiriau i annog y dysgwyr i ddefnyddio'r derminoleg gywir. Defnyddiwch y cardiau cwestiynau i annog y dysgwyr i ofyn cwestiynau i'w helpu i wneud cynnydd. Gofynnwch i'r dysgwyr sut y byddant yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chael yn atebion i'w cwestiynau. Sut gall y wybodaeth hon eu helpu i wella eu perfformiad?

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio eu dilyniant i ddysgwr arall.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Defnyddiwch y cardiau cwestiynau i helpu'r dysgwyr i ofyn cwestiynau perthnasol. Gofynnwch i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau gan lunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill. Holwch y dysgwyr am eu cynlluniau ar gyfer gwella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith. Defnyddiwch Nodweddion Ansawdd y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cardiau Adnoddau - Amrywiaeth yn ôl yr angen. Gofynnwch i'r dysgwyr osod targed ar gyfer y wers nesaf. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio gweithgaredd cynhesu sy'n seiliedig ar unrhyw rai o'r gemau addysgu'r corff y maent wedi'u dysgu yn barod. Dylai'r gweithgaredd gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 14 Gwers 3 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Canlyniadau Gwers 3**

**Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau anghymesur
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy ddefnyddio rhai o'r gemau a gynlluniwyd ganddynt sy'n cynnwys y weithred Cerdded fel lindys. Gofynnwch iddynt adolygu'r targed a osodwyd yn y wers ddiwethaf a cheisio gwella'r dilyniant.

**Archwilio**

Archwiliwch y weithred Cerdded fel Lindys ymhellach. A allwch chi berfformio'r weithred Cerdded fel Lindys fel pâr cysylltiedig yn debyg i Dau Filwr yn Cropian? Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar eu targed o'r wythnos diwethaf a pharhau i archwilio'r gweithgaredd priodol, gan symud ymlaen pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Dylai'r gwaith gael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn barod, ac os nad ydynt yn barod dylai'r athro eu holi ynghylch y meini prawf ar gyfer llwyddo. Adolygwch y gweithrediadau anghymesur a drafodwyd yn Uned 12. Trafodwch sut gall y gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen fod yn anghymesur. Rhowch y cyfarpar i gadw.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant unigol ar y llawr gan ddefnyddio un o'r <u>fframweithiau</u> a gyflwynwyd gan yr athro, ond dylent aildrefnu'r gweithrediadau i weddu iddyn nhw. Mae'n rhaid i'r dilyniant gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys a gweithgaredd o'r teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen hefyd. Rhaid i'r dysgwyr ychwanegu cyffyrddiadau personol i'r dilyniant hwn trwy amrywio cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr a maint neu hyd y gweithrediadau. Rhaid i'r dysgwyr gysylltu eu gweithrediadau â'i gilydd fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd ac arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth, gan gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys ac o leiaf un weithred gymesur ac un weithred anghymesur.

**Ymyrryd**

Parhewch i drafod cynnydd y dysgwyr yn yr adran addysgu cynhwysol. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gweithrediadau anghymesur. Edrychwch ar weithred anghymesur a thrafodwch ffyrdd o wneud y weithred yn gymesur ac i'r gwrthwyneb. Sut gall y dysgwyr wella'r modd y maent yn defnyddio gweithrediadau cymesur ac anghymesur? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Trafodwch sut maent wedi cyflawni hyn, a beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn perfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth.

**Perfformio**

Gofynnwch i bob un o'r dysgwyr berfformio ar yr un pryd.

**Gwerthuso**

Sesiwn hunanwerthuso gan ddefnyddio'r daflen werthuso ar gyfer <u>U14 G3</u>. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 14 Gwers 4 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Canlyniadau Gwers 4**

**Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy adolygu'r dilyniant o'r wythnos diwethaf a cheisio gweithredu'r 'dymuniad' o'u taflen werthuso. Dylent drafod â'u partner pa mor llwyddiannus y maent yn credu y maent wedi bod wrth gyflawni eu dymuniad.

**Archwilio**

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar eu targed o'r wythnos diwethaf a pharhau i archwilio'r gweithgaredd priodol, gan symud ymlaen pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Dylai'r gwaith gael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn barod, ac os nad ydynt yn barod dylai'r athro eu holi ynghylch y meini prawf ar gyfer llwyddo. Parhewch i drafod gweithrediadau cymesur ac anghymesur a sut gall y gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen gael eu haddasu'n weithrediadau cymesur ac anghymesur. Gofynnwch i'r dysgwyr ymarfer gweithrediadau sy'n arwain i mewn i weithrediadau cymesur ac anghymesur ac allan ohonynt. Erbyn hyn, bydd rhai dysgwyr yn rhoi cynnig ar y Cardiau Gweithgareddau ar ddiwedd y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen, a bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rholio'n anghywir, a'u bod yn deall na ddylai eu pen gyffwrdd â'r llawr o gwbl yn ystod Rhôl Ymlaen - yr ysgwyddau ddylai fod yn cyffwrdd â'r llawr. Rhaid i'r dysgwyr barhau i archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn ac allan o'r gweithgareddau a sgiliau sy'n rhan o'r teulu Rholio Ymlaen.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant unigol ar y llawr gan ddefnyddio un o'r fframweithiau a gyflwynwyd gan yr athro, ond dylent aildrefnu'r gweithrediadau i weddu iddyn nhw. Mae'n rhaid i'r dilyniant gynnwys unrhyw un o'r gweithgareddau cerdded a gweithgaredd o'r teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen hefyd. Rhaid i'r dysgwyr ychwanegu cyffyrddiadau personol i'r dilyniant hwn trwy amrywio cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr a maint neu hyd y gweithrediadau. Rhaid i'r dysgwyr gysylltu eu gweithrediadau â'i gilydd fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd ac arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth, gan gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys ac o leiaf un weithred gymesur ac un weithred anghymesur.

**Ymyrryd**

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain. Trafodwch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn. Sut gall y dysgwyr leihau'r risgiau? Beth arall allwch chi ei wneud i sicrhau eich bod yn gweithio'n ddiogel? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gweithrediadau anghymesur. Edrychwch ar weithred anghymesur a thrafodwch ffyrdd o wneud y weithred yn gymesur, ac i'r gwrthwyneb. Sut gall y dysgwyr wella'r modd y maent yn defnyddio gweithrediadau cymesur ac anghymesur? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Trafodwch sut maent wedi cyflawni hyn, a beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn perfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Faint o gynnydd ydych chi wedi'i wneud ers y wers ddiwethaf?

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddysgwr arall. Dylai'r dysgwr sy'n perfformio roi'r Cerdyn perthnasol o'r Teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen y mae wedi bod yn gweithio arno i'r dysgwyr sy'n gwylio.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Gofynnwch i'r dysgwyr osod targed i'w partner ar gyfer yr wythnos nesaf. Defnyddiwch strategaeth fyfyrio ar ffurf goleuadau traffig. Coch, mynd yn ôl i wneud y gweithgaredd blaenorol; Melyn, parhau i weithio ar yr un gweithgaredd; Gwyrdd, symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf. Cyfiawnhewch eich penderfyniad. Rhowch sylw manwl i'r gofynion ar gyfer symud ymlaen. A allwch chi berfformio 'X' gan arddangos siâp clir, rheolaeth dda a thyndra da yn y corff? Ac a allwch chi gynnwys 'X' yn eich dilyniant mewn modd effeithiol, llyfn ac effeithlon? Os felly, ewch ymlaen i roi cynnig ar y gweithgaredd nesaf yn y teulu. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 14 Gwers 5 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Canlyniadau Gwers 5**

**Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy chwarae'r gemau Cwpanau a Soseri a Phlymio o'r Awyr - amrywiad ar y gêm Cwpanau a Soseri: unwaith i chi gael eich tagio mewn siâp Soser rhaid i chi rolio drosodd i siâp Plymio o'r Awyr, a phan fyddwch yn cael eich tagio yn y siâp Plymio o'r Awyr rhaid i chi rolio drosodd i siâp Soser, a phan fyddwch yn cael eich tagio eto rhaid i chi fynd yn ôl i mewn i siâp Cwpan, ac yn y blaen.

**Archwilio**

Cyflwynwch y weithred Eistedd ar ffurf V. Archwiliwch weithrediadau sy'n arwain i mewn i'r weithred Eistedd ar ffurf V ac allan ohoni. Archwiliwch y weithred Eistedd ar ffurf V fel gweithred gydbwyso gymesur ac anghymesur. Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar eu targed o'r wythnos diwethaf a pharhau i archwilio'r gweithgaredd priodol, gan symud ymlaen pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Dylai'r gwaith gael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn barod, ac os nad ydynt yn barod dylai'r athro eu holi ynghylch y meini prawf ar gyfer llwyddo. Parhewch i drafod gweithrediadau cymesur ac anghymesur a sut gall y gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen gael eu haddasu'n weithrediadau cymesur ac anghymesur. Gofynnwch i'r dysgwyr ymarfer gweithrediadau sy'n arwain i mewn i weithrediadau cymesur ac anghymesur ac allan ohonynt. Erbyn hyn, bydd rhai dysgwyr yn rhoi cynnig ar y Cardiau Gweithgareddau ar ddiwedd y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen, a bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rholio'n anghywir, a'u bod yn deall na ddylai eu pen gyffwrdd â'r llawr o gwbl yn ystod Rhôl Ymlaen - yr ysgwyddau ddylai fod yn cyffwrdd â'r llawr. Rhaid i'r dysgwyr barhau i archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn ac allan o'r gweithgareddau a sgiliau sy'n rhan o'r teulu Rholio Ymlaen.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant unigol ar y llawr gan ddefnyddio un o'r fframweithiau a gyflwynwyd gan yr athro, ond gallant newid y dilyniant i weddu iddyn nhw. Gallai hyn olygu newid un weithred am un arall, ailadrodd gweithred, ychwanegu neu ddileu gweithred ac ati. Gallech ddefnyddio Cardiau Adnoddau Datblygu Motiff y Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2 i helpu'r dysgwyr â'r dasg hon neu er mwyn helpu i wahaniaethu'r dasg. Mae'n rhaid i'r dilyniant gynnwys gweithred Eistedd ar ffurf V a gweithgaredd o'r teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen hefyd. Rhaid i'r dysgwyr ychwanegu cyffyrddiadau personol i'r dilyniant hwn trwy amrywio cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr a maint neu hyd y gweithrediadau. Unwaith eto, dylech ddefnyddio'r Cardiau Adnoddau Amrywiaeth i helpu i wahaniaethu'r dasg. Rhaid i'r dysgwyr gysylltu eu gweithrediadau â'i gilydd fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd ac arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth, gan gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys ac o leiaf un weithred gymesur ac un weithred anghymesur.

**Ymyrryd**

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Trafodwch sut maent wedi cyflawni hyn, a beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn i'w perfformiad gynnwys gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Gofynnwch i'r dysgwyr lunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill. Tynnwch sylw at ddefnydd cywir o eiriau allweddol; defnyddiwch wal eiriau i annog y dysgwyr i ddefnyddio'r derminoleg gywir. Defnyddiwch y cardiau cwestiynau/cwestiynau heriol i annog y dysgwyr i ofyn cwestiynau i'w helpu i wneud cynnydd. Gofynnwch i'r dysgwyr sut y byddant yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chael yn atebion i'w cwestiynau. Sut gall y wybodaeth hon eu helpu i wella eu perfformiad? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain. Beth arall allwch chi ei wneud i leihau'r risgiau?

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddysgwr arall.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Defnyddiwch y cardiau cwestiynau i helpu'r dysgwyr i ofyn cwestiynau perthnasol. Gofynnwch i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau gan

lunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill.  Holwch y dysgwyr am eu cynlluniau ar gyfer gwella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith. Defnyddiwch Nodweddion Ansawdd y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cardiau Adnoddau - Amrywiaeth yn ôl yr angen. Gofynnwch i'r dysgwyr osod targed ar gyfer y wers nesaf. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 14 Gwers 6 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Ymarfer ystod o weithrediadau cymesur ac anghymesur
- Gweithio er eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Canlyniadau Gwers 6**

**Ar ôl cwblhau'r wers hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Rholio Ymlaen sy'n gynyddol gymhleth
- Gweithio ar eu pen eu hunain i greu a pherfformio dilyniant ar y llawr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth
- Llunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwneud cynnydd
- Defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith
- Dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu trwy chwarae'r fersiwn wedi'i addasu o'r gêm Cwpanau a Soseri a chwaraewyd yn y wers ddiwethaf, gan gynnwys gweithred Eistedd ar ffurf V.

**Archwilio**

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar eu targed o'r wythnos diwethaf a pharhau i archwilio'r gweithgaredd priodol, gan symud ymlaen pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Dylai'r gwaith gael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn barod, ac os nad ydynt yn barod dylai'r athro eu holi ynghylch y meini prawf ar gyfer llwyddo. Parhewch i drafod gweithrediadau cymesur ac anghymesur a sut gall y gweithgareddau yn y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen gael eu haddasu'n weithrediadau cymesur ac anghymesur. Gofynnwch i'r dysgwyr ymarfer gweithrediadau sy'n arwain i mewn i weithrediadau cymesur ac anghymesur ac allan ohonynt. Erbyn hyn, bydd rhai dysgwyr yn rhoi cynnig ar y Cardiau Gweithgareddau ar ddiwedd y teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen, a bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rholio'n anghywir, a'u bod yn deall na ddylai eu pen gyffwrdd â'r llawr o gwbl yn ystod Rhôl Ymlaen - yr ysgwyddau ddylai fod yn cyffwrdd â'r llawr. Rhaid i'r dysgwyr barhau i archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn ac allan o'r gweithgareddau a sgiliau sy'n rhan o'r teulu Rholio Ymlaen.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant unigol ar y llawr gan ddefnyddio un o'r fframweithiau a gyflwynwyd gan yr athro, ond gallant newid y dilyniant i weddu iddyn nhw. Gallai hyn olygu newid un weithred am un arall, ailadrodd gweithred, ychwanegu neu ddileu gweithred ac ati. Gallech ddefnyddio Cardiau Adnoddau Datblygu Motiff y Dull AGChY o Addysgu Dawns CA2 i helpu'r dysgwyr â'r dasg hon neu er mwyn helpu i wahaniaethu'r dasg. Rhaid i'r dysgwyr ychwanegu cyffyrddiadau personol i'r dilyniant hwn trwy amrywio cyfeiriad, lefel, cyflymder, llwybr a maint neu hyd y gweithrediadau. Unwaith eto, dylech ddefnyddio'r Cardiau Adnoddau Amrywiaeth i helpu i wahaniaethu'r dasg. Rhaid i'r dysgwyr gysylltu eu gweithrediadau â'i gilydd fel bod y cyfan yn llifo'n rhwydd ac arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth, gan gynnwys y weithred Cerdded fel Lindys, gweithred Eistedd ar ffurf V, ac o leiaf un weithred gymesur ac un weithred anghymesur.

**Ymyrryd**

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n arddangos gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Trafodwch sut maent wedi cyflawni hyn, a beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn perfformio â gwell sgiliau cydsymud a rheolaeth. Gofynnwch i'r dysgwyr lunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill. Tynnwch sylw at ddefnydd cywir o eiriau allweddol; defnyddiwch wal eiriau i annog y dysgwyr i ddefnyddio'r derminoleg gywir. Defnyddiwch y cardiau cwestiynau/cwestiynau heriol i annog y dysgwyr i ofyn cwestiynau i'w helpu i wneud cynnydd. Gofynnwch i'r dysgwyr sut y byddant yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chael yn atebion i'w cwestiynau. Sut gall y wybodaeth hon eu helpu i wella eu perfformiad? Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain. Beth arall allwch chi ei wneud i leihau'r risgiau?

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddysgwr arall.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan yr athro. Defnyddiwch y cardiau cwestiynau i helpu'r dysgwyr i ofyn cwestiynau perthnasol. Gofynnwch i'r dysgwyr ymateb i'r cwestiynau gan lunio barn syml am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad dysgwyr eraill. Holwch y dysgwyr am eu cynlluniau ar gyfer gwella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith. Defnyddiwch Nodweddion Ansawdd y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cardiau Adnoddau - Amrywiaeth yn ôl yr angen. Gofynnwch i'r dysgwyr osod targed ar gyfer y wers nesaf. Sicrhewch bod y dysgwyr yn cofnodi eu cynnydd ar y cerdyn cofnodi sgiliau, a'ch bod yn cytuno â'r cynnydd y maent wedi'i nodi. Cyflwynwch Dystysgrif y Teulu o weithrediadau Rholio Ymlaen i'r dysgwyr.